



Gwobr cwmni Potclays a'r Wyl Serameg Ryngwladol ar gyfer Gwneuthurwyr Newydd a'r Rhai sy'n dod i'r amlwg 2019 (mewn cysylltiad â Sefydliad Celf Serameg Jingdezhen Sanbao)

Gwobr Potclays ar gyfer Gwneuthurwyr Newydd a'r Rhai sy'n dod i'r amlwg:

Sefydlwyd y Gystadleuaeth yn 2011. Mae'n gyfle i grochenwyr ac artistiaid sy'n gweithio mewn clai yn y DU, sydd wedi graddio yn y pum mlynedd diwethaf, i roi cyflwyniad byr ac i arddangos eu gwaith yn ystod Gŵyl Serameg Ryngwladol 2019.

Dewisir pedwar gwneuthurwr i roi cyflwyniadau Powerpoint yn ystod yr ŵyl. Bydd cynnwys y cyflwyniadau hyn yn ffocysu ar eu gwaith cyfredol a sut y gall y gwaith ddatblygu yn ystod y cynllun Artist Ymweliadol Rhyngwladol. Bydd y cyflwyniadau yn para am 15 munud yr un (gan gynnwys sesiwn C&A).

Bydd y sawl sy'n cyrraedd y rownd derfynol yn cael proffil ar wefan yr Ŵyl ac 'rydym yn argymhell eu bod hefyd yn berchen ar wefan neu flog. Bydd y pedwar terfynwr yn parhau i dderbyn cefnogaeth oddi wrth yr Ŵyl Serameg Ryngwladol yn nhermau hysbysebu eu gweithgareddau ar draws cyfryngau cymdeithasol yr Ŵyl yn ystod y flwyddyn sy'n dilyn yr Ŵyl o leiaf.

Hefyd gofynnir i'r pedwar terfynwr ddod â detholiad o'u gwaith i gymryd rhan yn arddangosfa'r Gwneuthurwyr Newydd yn ystod y penwythnos. Rhoddir i'r holl derfynwyr docyn penwythnos a llety yn ystod Gŵyl Serameg Ryngwladol 2019.

Bydd cwmni Potclays yn cynnig i bob terfynwr 12 mis o ostyngiadau ar brisiau, cyfweiliad a gyhoeddir ar wefan Potclays, a chefnogaeth gyfryngau cymdeithasol a digidol gyfredol e.e. ar gais, datganiadau i'r wasg yn eu cylchlythyr e-bost misol a 'rhannu' cymdeithasol.

Bydd un o'r terfynwyr yn ennill **Gwobr Artist Ymweliadol Rhyngwladol Gwneuthurwyr Newydd cwmni Potclays a'r Ŵyl Serameg Ryngwladol 2019** a gynhelir yn Sefydliad Celf Serameg Jingdezhen Sanbao yn Tsieina rhwng Ebrill a Mai neu Fedi a Thachwedd 2020.

Sefydliad Serameg Jingdezhen Sanbao oedd y lle cyntaf yn Tsieina i dderbyn artistiaid serameg rhyngwladol o bob rhan o'r byd. Ers 1998, mae dros 800 o artistiaid a chrochenwyr wedi bod i Sanbao i gymryd rhan mewn cyfnodau preswyl. 'Rydym yn cynnal yr holl dechnegau crefft a byw traddodiadol; 'rydym yn derbyn pob math o artist i ddod ac archwilio eu syniadau.

<https://www.facebook.com/SanbaoCeramic/>

Ymgeiswyr:

Rhaid i ymgeiswyr fod dros 18 oed ac yn gweithio yn y DU. Rhaid eu bod wedi graddio o brifysgol neu sefydliad Addysg Uwch yn y DU o fewn y 5 mlynedd diwethaf, **mae hyn yn cynnwys myfyrwyr a fydd wedi graddio erbyn mis Gorffennaf 2019.**

Y Proses Ymgeisio:

Gofynnir i ymgeiswyr anfon copi o'u cyflwyniad gyda nodiadau ac hefyd un dudalen A4 yn disgrifio prosiect yr hoffent ei gwblhau yn ystod eu cyfnod preswyl gyda'r mudiad rhyngwladol.

Y Proses Dethol:

Unwaith mae'r holl geisiadau ar gyfer y gystadleuaeth wedi eu derbyn bydd panel dethol yr *Ŵyl Serameg Ryngwladol* yn dewis yr ymgeiswyr terfynol. Bydd y panel dethol yn cynnwys cynrychiolwyr cwmni Potclays, Cyfarwyddwyr yr *Ŵyl*, Wenying Li, Cyfarwyddwr Rhaglenni, Sefydliad Celf Serameg Jingdezhen Sanbao.

Dewisir enillydd ***Gwobr Artist Ymweliadol Rhyngwladol Gwneuthurwyr Newydd cwmni Potclays a'r Ŵyl Serameg Ryngwladol*** yn seiliedig ar eu cyflwyniad llawn a'r gwaith y maent yn arddangos dros benwythnos yr *Ŵyl* lle bydd y cyhoedd hefyd yn medru cyfrannu tuag at y pleidleisio.

Seilir y dewis ar y meini prawf canlynol:

1. Safon ac amrywiaeth gwaith yr ymgeisydd.
2. Y gwaith, arddangosfeydd a'r gweithgareddau eraill y bu'r ymgeisydd yn ymwneud â nhw ers gorffen ei addysg.
3. Potensial yr ymgeisydd i fanteisio ar gyfleoedd yn y dyfodol a all godi yn sgil y cynllun hwn a datblygiadau potensial ei yrfa yn y dyfodol.
4. Teilyngdod y prosiect y mae'r ymgeisydd yn bwriadu gweithio arno yn ystod ei gyfnod preswyl gyda'r mudiad rhyngwladol.

Gwobr Artist Sefydliad Celf Serameg Jingdezhen Sanbao:

Bydd hwn yn gyfnod preswyl o 3 wythnos a gynhelir rhwng Ebrill a Mai neu Fedi a Thachwedd 2020 yn Sefydliad Celf Serameg Jingdezhen Sanbao.

Bydd Sefydliad Celf Serameg Jingdezhen Sanbao yn darparu:

- gofod stiwdio
- deunyddiau
- tanio
- tri phryd bob dydd
- ystafell gydag ystafell ymolchi gyhoeddus
(gall yr enillydd uwchraddio ei lety i ystafell gydag ystafell ymolchi breifat neu ymestyn y cyfnod am fwy na 3 wythnos os yw'n talu'r costau ei hun.)

Bydd yr *Ŵyl Serameg Ryngwladol* yn darparu:

- Cost tocyn dychwelyd economi o faes awyr yn y DU i Shanghai.
- Cost un nos o lety yn Shanghai ar y daith allan ac yn ôl.
- Cost teithio o Shanghai i Sefydliad Celf Serameg Jingdezhen Sanbao ac yn ôl.

Bydd cwmni Potclays yn darparu:

- Tocyn gwerth £200 am nwyddau o gwmni Potclays LTD.
- Y tlws a gyflwynir i'r Enillydd.
- Tystysgrif wedi'i fframio.

- Disgwylir i enillydd y wobwr weithio ar ei brosiect arfaethedig yn ystod ei gyfnod preswyl yn Sefydliad Celf Serameg Jingdezhen Sanbao. Yn ystod y cyfnod gellir gofyn iddo gyflwyno anerchiad ynglyn â'i waith i artistiaid eraill. Gellir gofyn iddo hefyd i gynnal stiwdio agored ar ddiwedd y cyfnod neu i gymryd rhan mewn arddangosfa.

Bydd yr Ŵyl Serameg hefyd yn gofyn i enillydd y wobwr gyflwyno darlith yn ystod Gŵyl 2021 ar ei gyfnod yn Sefydliad Celf Serameg Jingdezhen Sanbao a sut mae ei waith wedi datblygu ers hynny. Bydd hyn yn helpu i hyrwyddo'r cynllun i ymgeiswyr potensial yn y dyfodol. Mae'r Ŵyl Serameg yn cytuno darparu llety a thocyn i'r Ŵyl yn 2021.

Gwerthusiad ac Adroddiad ar y Wobr:

Bydd yr Ŵyl Serameg yn disgwyl i enillydd y wobwr ddarparu diweddariadau cynnydd rheolaidd yn ystod ei gyfnod yn Sefydliad Celf Serameg Jingdezhen Sanbao, i'w gosod ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol yr Ŵyl Serameg, cwmni Potclays a Sefydliad Celf Serameg Jingdezhen Sanbao i hyrwyddo'r cydweithrediad a'r cynllun artist ymweliadol. Disgwylir i'r enillydd hefyd ysgrifennu blog ar-lein rheolaidd ynglyn â'r cyfnod preswyl.

Ar ôl yr Ŵyl disgwylir i enillydd y wobwr ysgrifennu adroddiad ynglyn â'r wobwr, yn rhoi manylion am sut y bu o gymorth / yn dylanwadu ar ei waith. Bydd copi electronig o'r adroddiad hwn ar gael (gyda chaniatâd yr enillydd) ar wefan yr Ŵyl Serameg Ryngwladol.

Cefnogir y wobwr hon gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Amserlen:

Mawrth 2019: Gwahoddir ceisiadau am y Wobr Gwneuthurwyr Newydd a'r Cynllun Artist Ymweliadol

30^{ain} Ebrill 2019: Dyddiad cau am geisiadau ar gyfer y Wobr Gwneuthurwyr Newydd

13^{eg} Mai 2019: Dewisir Pedwar Gwneuthurwr i roi cyflwyniadau ac arddangos yn ystod yr ŵyl.

Gorffennaf 2019: Dewisir enillydd y Wobr yn ystod yr ŵyl 05^{ed}-07^{fed} Gorffennaf 2019

Cyn mis Ionawr 2021: Enillydd y wobwr yn cwblhau cyfnod preswyl yn Sefydliad Celf Serameg Jingdezhen Sanbao.

<http://www.internationalceramicsfestival.org/emerging-makers-award/>

